O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 585 (Cy.85)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 35, Dobs Hill, Sir y Fflint, Y Gerbytffordd tua'r Dwyrain a'r Ffordd Ymadael tua'r Dwyrain) (Gwaharddiadau Dros Dro a Therfyn Cyflymder 40 MYA) 2011.

Gwnaed *2 Mawrth 2011*

Yn dod i rym *7 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer - Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi'u bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Gan hynny, mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**., yn gwneud y Gorchymyn hwn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Mawrth 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 35, Dobs Hill, Sir y Fflint, Y Gerbytffordd tua'r Dwyrain a'r Ffordd Ymadael tua'r Dwyrain) (Gwaharddiadau Dros Dro a Therfyn Cyflymder 40 MYA) 2011.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 7 Mawrth 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol.